

# Canllawiau – Ceisiadau

## Adran 1 – Manylion cyswllt

### Enw'r sefydliad

Enw eich grŵp fel y nodir yn eich dogfennau llywodraethu. Os yw eich grŵp yn fwy adnabyddus o dan enw arall, rhowch y wybodaeth honno hefyd.

### Cyfeiriad

Dyma'r cyfeiriad y byddwn yn anfon unrhyw ddogfennau iddo, felly gwnewch yn siŵr ei fod yn gyfeiriad lle y gellir anfon a chasglu post. Os yw'r prosiect yn gweithredu mewn ardal wahanol i'r cyfeiriad a ddarperir, nodwch hynny'n glir yn y cais.

### Cyfeiriad e-bost

Byddwn yn defnyddio e-bost i gysylltu â chi lle bynnag y bo'n bosibl, felly mae'n bwysig darparu cyfeiriad e-bost dilys rydych yn edrych arno'n rheolaidd. Noder, anfonir canlyniad eich cais am grant ar ffurf llythyr ysgrifenedig drwy'r post.

### Rhifau cyswllt

Dylai'r rhif ffôn cyswllt fod ar gyfer rhywun y gellir cysylltu ag ef/hi ac sy'n meddu ar wybodaeth dda am y sefydliad a'r cais. Os yw'r unigolyn hwnnw ond ar gael ar amseroedd penodol neu ddyddiau penodol o'r wythnos, cofiwch gynnwys hyn yn eich ffurflen gais gan y gallwn gysylltu â chi i ofyn cwestiynau er mwyn cefnogi eich cais fel rhan o'n proses asesu.

## Adran 2 – Gwybodaeth am eich sefydliad

### Maint eich sefydliad

Rhowch drosolwg cryno o'r hyn y mae eich elusen, grŵp neu sefydliad yn ei wneud, ynghyd â'r weledigaeth a'r nodau. Nid oes unrhyw gyfyngiadau mesuradwy ar faint sefydliadau sy'n gymwys ar gyfer llawer o'n rhaglenni grantiau (cyfeiriwch at y meini prawf penodol). Fodd bynnag, rydym yn annhebygol o ariannu sefydliadau nad ydynt wedi'u lleoli yn ardal y prosiect arfaethedig, sefydliadau sydd â lefelau uchel o incwm a/neu sefydliadau sydd â llawer o aelodau o staff.

## Adran 3 – Cyllid eich sefydliad

### Cyfanswm yr incwm yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf

Dyma'r incwm a dderbyniodd eich sefydliad yn y flwyddyn ariannol ddiweddaraf a gwblhawyd. Gall ffynonellau incwm ar gyfer grwpiau cymunedol gynnwys aelodaeth, tanysgrifiadau, grantiau a masnachu.

### Cyfanswm a wariwyd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf

Dyma gyfanswm gwariant eich sefydliad yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf a gwblhawyd.

### Cronfeydd anghyfyngedig cyfredol

Dyma'r arian sy'n cael ei ddal gan y sefydliad nad yw wedi'i neilltuo at ddiben penodol e.e. mae rhoddion i sefydliadau elusennol fel arfer yn anghyfyngedig yn wahanol i grantiau sydd fel arfer wedi'u cyfyngu i ddiben penodol. Ychydig iawn o grwpiau sydd heb unrhyw gronfeydd anghyfyngedig o gwbl.



## Adran 4 – Gwybodaeth am y Prosiect

### Amcan y prosiect

This section should give clear details of the project or activity you are requesting funding for, rather than your whole organisation.

### Amserlenni'r prosiect

Ni all unrhyw un o'n rhaglenni grantiau ariannu unrhyw brosiectau a gynhaliwyd eisoes, felly gwnewch yn siŵr bod eich prosiect yn dechrau ar ôl dyddiad cau'r rhaglen. Fel arfer, bydd ymgeiswyr am grantiau yn cael canlyniad eu cais tua deufis ar ôl y dyddiad cau (cyfeiriwch at feini prawf y grant penodol ar gyfer unrhyw addasiadau i hyn).

### Dadansoddiad o'r costau

Dylid dadansoddi eitemau yn unol â'r elfennau gwahanol. Drwy gyflwyno dadansoddiad o'ch costau i ni, rydych yn ein helpu i weld bod y prosiect rydych yn gofyn am gyllid ar ei gyfer wedi'i gynllunio a bod pob cost wedi cael ei hystyried. Dylid cael dyfynbrisiau gan gyflenwyr lle y bo'n bosibl.

## Adran 5 – Canolwr

Dylai hwn fod yn rhywun nad yw'n ymwneud â'r gwaith o redeg eich sefydliad ond sydd hefyd yn meddu ar wybodaeth dda am y ffordd mae'r sefydliad o fudd i'r gymuned leol.

Mae enghreifftiau o ganolwyr yn cynnwys cyflogai mewn sefydliad partner, pennaeth ysgol leol, cynghorydd lleol neu'r swyddog cymorth cymunedol yr heddlu lleol.

## Dogfennau Ategol

Rhaid i ymgeiswyr am grantiau gyflwyno'r dogfennau canlynol fel y nodir ar restr wirio'r ffurflen gais fel rhan o'u cais.

### 1. Cyfansoddiad y sefydliad (wedi'i lofnodi a'i ddyddio)

Rhaid bod gan bob grŵp ddogfen lywodraethu er mwyn bod yn gymwys i gael grant gan y Sefydliad Cymunedol Cymru. Gallai hyn gynnwys eich Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu, eich Cylch Gorchwyl neu eich Cyfansoddiad. Dylai'r ddogfen hon amlinellu nodau ac amcanion y grŵp, nodi gweithdrefnau cyfarfodydd y pwyllgor gweithredol a gweithdrefnau ariannol yn ogystal â chynnwys cymal diddymu sy'n nodi beth fyddai'n digwydd i asedau'r grŵp pe byddai'r pwyllgor yn penderfynu dod i ben. Derbynnir copiau electronig o ddogfennau llywodraethu hir; rhowch wybod i ni yn y copi caled o'ch cais eich bod wedi anfon y dogfennau hyn yn electronig. Os nad oes gennych ddogfen lywodraethu, cysylltwch â'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol a fydd yn gallu eich helpu.

### 2. Dogfennau ariannol

Yn ddelfrydol, mae angen dwy flynedd o gyfrifon arnom er mwyn cynnal gwiriadau ariannol. Os nad oes cyfrifon wedi'u harchwilio ar gael, gallwn dderbyn cofnod incwm a gwariant. Noder nad yw cyfriflen banc fisol yn cynnwys digon o wybodaeth fel dogfen ariannol ar gyfer ein proses asesu ac felly ni chaiff ei derbyn. Os yw eich sefydliad newydd gael ei gyfansoddi, bydd angen y wybodaeth ariannol arnom ar gyfer y cyfnod ers i'ch grŵp gael ei sefydlu.

### 3. Copi caled o'r cais

Rydym yn eich annog i gyflwyno ceisiadau yn electronig lle bynnag y bo'n bosibl. Mae hefyd angen copi caled o'r ffurflen gais wedi'i lofnodi arnom, ynghyd â'r dogfennau ategol. Cofiwch dalu'r tâl postio cywir gan na allwn dalu unrhyw gostau postio am eitemau nad ydynt yn ein cyrraedd yn llwyddiannus.